# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 01-07(p.3)

### Dyddiad: 17 Ionawr 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Cyllid Cystadleurwydd yr UE

#### Diben

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur ac ystyried ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol. Gallwch weld y dogfennau ymgynghori (ERDF ac ESF) drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:

http://www.wefotest.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1832

Mae holl aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn copïau papur o'r ddwy ddogfen.

#### Crynodeb

Mae'r papur hwn yn amlinellu cynnwys Rhaglenni Cystadleurwydd Dwyrain Cymru a lansiwyd gan Brif Weinidog Cymru yng Nghanolfan Cymorth Busnes y Barri ddydd Gwener 1 Rhagfyr. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r Blaenoriaethau ar gyfer ERDF ac ESF, a cheir rhestr o'r cwestiynau ymgynghori o'r dogfennau yn Atodiad B.

#### Cefndir

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r weledigaeth, y strategaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Dwyrain Cymru am y cyfnod 2007–2013 gyda chefnogaeth Cronfeydd Strwythurol Ewrop – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

Seiliwyd y strategaeth ar ddadansoddiad o anghenion a dyheadau'r rhanbarth, ynghyd ag asesiad o'r gwersi a ddysgwyd o dan y rhaglenni presennol. Fel ag yn achos Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, cafodd ei datblygu yng nghyd-destun amcanion agendâu Lisboa (Lisbon) a Göteborg yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer diwygio economaidd cynaliadwy, a pholisïau cenedlaethol allweddol Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys Cymru: Gwlad Well, Cynllun Gofodol Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a Strategaeth Amgylcheddol Cymru.

Yn unol â strategaeth Lisboa, bydd y rhaglenni newydd yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar hybu twf a chynyddu nifer y swyddi na'r Rhaglenni Amcan 2 a 3 a'u rhagflaenodd.

## Y Weledigaeth ar gyfer y Rhanbarth Cystadleurwydd a Chyflogaeth

Datblygwyd y Blaenoriaethau ar gyfer y rhaglenni (ERDF ac ESF) er mwyn gwireddu'n gweledigaeth ar gyfer Dwyrain Cymru, sef creu rhanbarth llwyddiannus, ffyniannus ac entrepreuneraidd sydd ar flaen y gad o ran datblygu cynaliadwy.

## Blaenoriaethau

Dyma'r blaenoriaethau sy'n cael eu cynnig:

- Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf (ERDF)
- Cystadleurwydd ar gyfer twf (ERDF)
- Yr amgylchedd ar gyfer twf (ERDF)
- Adfywio integredig ar gyfer twf (ERDF)
- Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afal ag anweithgarwch economaidd (ESF)
- Gwella lefelau sgiliau a helpu'r gweithlu i addasu (ESF)

Fe glywodd y Pwyllgor am y ffocws cyffredinol oedd yn cael ei gynnig ar gyfer y Rhaglen mewn cyfarfod blaenorol (5 Gorffennaf 2006), fel rhan o'r drafodaeth ar y bennod Gymreig yn Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU.

## Themâu Trawsbynciol

O dan y rheoliadau ar gyfer y rhaglenni newydd, bydd Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal yn parhau i fod yn themâu trawsbynciol. Bydd gofyn i bob prosiect sy'n gwneud cais am gyllid, ac yn ei dderbyn, o dan y rhaglenni newydd ddangos sut y cafodd y themâu hyn eu hystyried. Mae TGCh, sef un o'r themâu trawsbynciol presennol, yn cael ei phrif-ffrydio fel rhan o'r rhaglenni newydd yn sgil y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod cyfnod y rhaglenni presennol.

## Dyrannu adnoddau

Mae Cyngor Ewrop wedi cytuno y dylid defnyddio'r holl adnoddau perthnasol, gan gynnwys y Cronfeydd Strwythurol, i gefnogi strategaeth Lisboa, ac mae wedi cytuno ar yr hyn a elwir yn "dargedau clustnodi Lisboa" i gysylltu buddsoddiadau'r Cronfeydd Strwythurol yn agosach â blaenoriaethau Lisboa yn y dyfodol. Rhaid i o leiaf 75 y cant o'r adnoddau Cystadleurwydd fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi blaenoriaethau Lisboa (o'i gymharu â 60 y cant ar gyfer y Rhaglenni Cydgyfeirio).

Yn y dogfennau ymgynghori ar y rhaglenni Cystadleurwydd, rydym yn cynnig mynd ymhellach na'r ffigur gofynnol hwn a chysylltu 80 y cant o'r adnoddau â buddsoddiadau Lisboa. Rydym yn credu bod hyn yn cyd-fynd â'r anghenion strategol a nodwyd yn Cymru: Economi yn Ffynnu, gan adlewyrchu'r angen i ddatblygu economi arloesol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Cafodd y rhaglenni Cystadleurwydd ar gyfer Dwyrain Cymru (ERDF ac ESF) eu datblygu gyda'i

gilydd, gan sicrhau y bydd y Blaenoriaethau'n ategu ei gilydd ac yn ychwanegu gwerth at y naill a'r llall. Bydd hynny'n hwyluso hyblygrwydd rhwng y cronfeydd, yn enwedig ym meysydd arloesi, sgiliau, cyflogaeth a chymunedau cynaliadwy. Bydd yna fwy o gyfleoedd hefyd i gefnogi camau arloesol a phrosiectau ar gyfer cydweithredu rhyng-genedlaethol.

## Gweithredu

Bydd y rhaglenni newydd yn seiliedig ar strwythur symlach. Bydd rhaglenni'n cael cyllid o un gronfa a chynhelir rhaglenni ar lefel blaenoriaethau yn hytrach na mesurau.

Caiff y rhaglenni newydd fwy fyth o effaith drwy fabwysiadu dull mwy strategol o weithredu, drwy symleiddio'r trefniadau a thrwy gydgysylltu mwy nag ar hyn o bryd. Y bwriad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yw gyrru'r rhaglenni Cydgyfeirio yn eu blaenau drwy fframweithiau strategol. Rydym yn gwahodd safbwyntiau ynghylch a fyddai'n briodol mabwysiadau dull tebyg yn Nwyrain Cymru.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd yn datblygu dulliau symlach a chyflymach o weithio er mwyn gweinyddu'r rhaglenni newydd. Maent yn cael eu cynllunio yn y fath fodd fel eu bod yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau'r CE, yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y systemau ymgeisio a thalu, yn cryfhau'r trefniadau monitro, ac yn gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer ond gan leihau'r costau cyffredinol ar yr un pryd. Er mwyn ategu'r prosesau busnes newydd hyn, mae WEFO'n buddsoddi mewn system TG soffistigedig newydd o'r enw PPIMS, a fydd yn cynnwys gwasanaethau ar y we ar gyfer ymgeiswyr.

## Trefniadau Ymgynghori

Mae'r dogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig ac ar bapur, a gall unigolion a sefydliadau ymateb yn ysgrifenedig, drwy'r ffacs neu drwy e-bostio blwch WEFO Post 2006, neu drwy fynychu un o'r gweithdai ymgynghori a drefnir gan WEFO. Cynhelir y digwyddiadau hynny ar 15, 18 ac 19 Ionawr 2007. Mae'n partneriaid hefyd yn trefnu eu digwyddiadau a'u cyfarfodydd eu hunain, ac mae fy swyddogion yn mynd i'r cyfarfodydd hyn os yw hynny'n bosibl.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn adeiladu ar y drafodaeth a gynhaliwyd gydag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid a thrwy'r Grwpiau Rhanddeiliaid allanol a'r pum Ffrwd Waith.

Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, caiff y rhaglenni eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 6 Mawrth 2007. Mae dyddiad cychwyn y Rhaglenni yn ddibynnol ar drafodaeth lwyddiannus gyda'r Comisiwn Ewropeaidd dros y gaeaf, ond rydym yn rhagweld y byddwn yn dod i gytundeb yn ystod haf 2007.

## Goblygiadau ariannol

Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y dyraniadau ar gyfer Rhaglenni Dwyrain Cymru ar 23 Hydref. Ers hynny, mae'r ffigurau wedi'u huwchraddio i £97m dros y cyfnod o saith mlynedd gyda £52m (€72m) ar gyfer Rhaglenni'r ERDF a £45m (€64m) ar gyfer y Rhaglen ESF. Gydag arian cyfatebol,

bydd y ddwy Raglen gyda'i gilydd yn werth dros £200m.

Cyllideb Cronfa'r UE ar gyfer y Rhaglen Amcan 2 (craidd) a'r Rhaglen Amcan 3 presennol yw £58.3m a £93.5m, yn y drefn honno. Gyda'i gilydd, mae Dwyrain Cymru wedi sicrhau 2.3% o'r adnoddau sydd ar gael, o'i gymharu â'i chyfran o'r boblogaeth sef 2.0%.

Mae Cyngor Gweinidogion Ewrop (drwy COREPER) wedi cytuno y dylai pob Aelod-wladwriaeth gael y dewis o gynnwys cydariannu preifat yn eu rhaglenni os ydynt yn dymuno hynny. Cytunwyd ar y Rheoliadau, a'u cyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE ar 31 Gorffennaf, ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan Europa gyda chyswllt i dudalennau gwe rhaglenni 2007 – 2013 WEFO –

http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1681

Bydd strwythur gwahanol y rhaglenni newydd, a'r ffaith eu bod yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, yn ein helpu i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu arian cyfatebol a chydariannu prosiectau. Bydd hynny'n symleiddio'r prosesau ac yn lleihau biwrocratiaeth.

### Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor roi adborth i swyddogion WEFO ar y ddogfen ymgynghori, gan ddefnyddio'r cwestiynau ymgynghori ffurfiol a nodir yn Atodiad B.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

## Annex A

### Priorities of the East Wales Regional Competitiveness and Employment Programmes

### European Regional Development Fund

### Priority 1: Knowledge and innovation for growth

This Priority will seek to build business capabilities to become more innovative, develop new and improved products, processes and services, reach new markets, and develop the research, technology and innovation capacity and the ability to commercialise and exploit research.

### Priority 2: Competitiveness for growth

This Priority aims to strengthen the environment for enterprise by supporting new and existing business ventures, particularly enterprises with the capacity and potential to grow. This will be

achieved by a variety of measures including ensuring the appropriate provision of pre and post start advice, information and support, and help with skills, innovation, property finance etc.

### Priority 3: Environment for growth

This Priority aims to promote the development of clean and renewable energy and to encourage greater energy efficiency by businesses, public bodies, social enterprises, local communities and householders in East Wales. It also aims to tackle environmental barriers to economic development by supporting investment that will improve resource productivity and manage environmental risks and constraints.

### Priority 4: Integrated regeneration for growth

This Priority aims to provide spatially targeted support for the physical regeneration of the most deprived communities. This will be achieved by refurbishment and/or demolition, and environmental improvements of derelict buildings for economic use with the possibility for associated limited site decontamination and reclamation and small scale town centre renewal and rehabilitation of public spaces.

### European Social Fund

### Priority 1: Increasing employment and tackling economic inactivity

This Priority will focus on increasing employment and promoting social inclusion by developing co-ordinated action to overcome barriers and disincentives to work.

### ESF Priority 2: Improving skill levels and improving the adaptability of the workforce

This Priority aims to improve skill levels as a means of tackling economic inactivity and promoting higher-added value employment. It will support raising basic skills levels amongst the workforce, improve systems for workforce development and promoting gender equality in employment.

NB: in implementing each priority, account will be taken of the need to address equal opportunities for all, and environmental sustainability.

## Annex B – Regional Competitiveness and Employment Programmes Consultation Questions

### The Analysis

- Do you agree with the overall Vision for East Wales?
- Do you agree with the Analysis of strengths, weaknesses, opportunities and threats facing the

Region?

## The Strategy

- Do you agree with the Strategy?
- Do you agree with the aims and objectives for programmes?
- Do you agree with the monitoring and evaluation strategy?
- Do you have any views on what the themes for innovative actions and transnational activities might be for the ERDF and ESF programmes?

## Priorities

- Do you agree with the focus of the priorities? Is the scope of activities contained within the priorities appropriate for the resources available?
- Do you agree with the proposed priority level indicators?

## Cross Cutting Themes

- Do you agree with the proposed objectives and approach to mainstreaming Equal Opportunities within the Programmes?
- Do you agree with the proposed objectives and approach to mainstreaming Environmental Sustainability within the Programmes?

## Implementation arrangements

- Do you have a view as to whether elements of the Programmes should be spatially targeted, i.e., available only for projects within defined geographical areas, in particular, ERDF Priority 4 Regeneration for Growth? In your opinion what elements can best be spatially targeted?
- Do you agree with the proposals for strengthening strategic implementation? In your opinion, should the delivery mechanisms for the East Wales Programmes be the same as those proposed for the West Wales and the Valleys Convergence Programmes?
- Do you agree with the proposals for Technical Assistance?
- Do you agree with the proposals for the Programme Monitoring Committee (PMC)?

## Financial Plans

- Do you agree with the proposals for the broad allocation of resources?

**WEFO**